## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **28 Mehefin 2001** |
| **Amser** | **2.00pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 3** |
| **Teitl** | **Gefeillio** |

### Diben

1. Darparu gwybodaeth ar efeillio

**Argymhelliad**

2. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys y papur hwn.

**Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod diwethaf ar 23 Mai, gofynnodd y Pwyllgor am bapur cefndir ar efeillio.

**Beth yw Gefeillio?**

4. Wrth i wledydd o Ganol Ewrop gael eu derbyn i'r Undeb Ewropeaidd mae angen cryfhau eu gallu sefydliadol a gweinyddol fel bod modd iddynt gymhwyso'r acquis communautaire (cyfraith yr UE) i'r un safonau ag Aelod Wladwriaethau presennol. O fewn Aelod Wladwriaethau, caiff yr *acquis* ei roi ar waith gan weinyddiaethau cenedlaethol, asiantaethau, cyrff proffesiynol a'r sector preifat. Mae'r corff hwn o arbenigedd gweinyddol a thechnegol ar gael i wledydd Canol Ewrop drwy'r rhaglen efeillio.

**Sut mae'n gweithio?**

5. Hyd yn hyn mae llawer o gymorth a chynhorthwy deuochrog yr UE wedi cyflwyno arbenigedd trwy gyfrwng canllawiau, cyngor cyfreithiol, aseiniadau ymgynghorol a theithiau cyfnewid gan arbenigwyr. Mae gefeillio yn unigryw am ei fod yn secondio arbenigwyr UE i'r 10 wlad o Ganol Ewrop sy'n dymuno ymuno â'r UE: Bwlgaria, Gweriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Romania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia. Trwy efeillio, dylai'r gwledydd hyn

ddatblygu strwythur trefniadol effeithiol a gweithredol a fydd yn eu galluogi i fodloni eu rhwymedigaethau i'r Gymuned. Caiff projectau penodol eu llunio gan y gwledydd o Ganol Ewrop a'r Comisiwn a'u dosbarthu at yr Aelod Wladwriaethau fel bod modd iddynt roi eu barn arnynt. Mae rhaglen Phare yr UE yn ad-dalu'r gost o gymryd rhan mewn project gefeillio i'r Aelod Wladwriaeth lwyddiannus.

**Sut mae dod yn rhan o'r project?**

6. Caiff ceisiadau gan y DU eu cydlynu gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Mae sawl ffordd o fod yn rhan o brojec gefeillio. Fel Arweinydd Project, Ymgynghorydd Rhag-dderbyn (YRh)neu arbenigwr tymor byr:-

Fel arfer bydd **Arweinydd y Project** yn uwch swyddog a fydd yn delio â'r project yn feunyddiol. Mae Arweinydd y Project yn cadw cysylltiadau clos â'r YRh yng Ngweinyddiaethau gwledydd Canol Ewrop, ac yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar gynnydd y project. Mae Swyddogaeth Arweinydd y Project yn hanfodol i sicrhau bod y projectau yn parhau ar y llwybr cywir, a bod perthynas dda â Gweinyddiaeth Canolbarth Ewrop.

Mae'r **Ymgynghorwyr Rhag-dderbyn** yn arbenigwyr o Aelod Wladwriaethau a secondiwyd yn llawn amser i'r Weinyddiaeth CE. Mae hyn yn elfen hanfodol o'r project gefeillio, gan gynnig cyngor arbenigol i wledydd Canol Ewrop, cydlynu elfennau hanfodol y project a monitro datblygiad y project. Mae'r YRh yn gweithio yng Ngweinyddiaeth gwledydd Canol Ewrop CE yn ystod oes y project.

**Arbenigwyr tymor byr** sy'n gyfrifol am dasgau y mae gofyn i arbenigwyr arbenigol eu cyflawni, neu am sectorau nad ydynt o fewn meistrolaeth yr YRh eu hunain. Byddant yn ymweld am reswm penodol, fel arfer am gyfnod o 1-2 wythnos;

Bydd cyflwyno systemau newydd yn golygu **hyfforddi'r** personél a fydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn parhau yn llwyddiannus. Bydd hyn hefyd yn cynnwys, lle bo'n briodol, hyfforddi hyfforddwyr. Fel arfer bydd yr hyfforddiant yn digwydd yn y wlad o Ganolbarth Ewrop, yn hytrach nag yn yr Aelod Wladwriaeth.

**Ymgynghorwyr Rhag-dderbyn**

7. Fel arfer mae'r Ymgynghorwyr Rhag-dderbyn yn **Swyddogion Cyhoeddus a gweision cyhoeddus**. Caiff yr asiantaeth secondio ei had-dalu gan y rhaglen Phare am gost cyflog yr YRh, yn ogystal â chyfradd o 6% i dalu am gostau ailosod a chostau gweinyddol. Mae'r YRh yn parhau i gael eu cyflogi gan y weinyddiaeth gartref, a gaiff ei ad-dalu yn ei dro. Caiff unrhyw gostau perthnasol eraill e.e. costau byw o ddydd i ddydd, tai, costau symud, ffioedd ysgol neu dreuliau, eu had-dalu yn uniongyrchol i'r YRh gan y Comisiwn. Gall yr YRh hefyd fod o'r sector preifat os oes ganddynt y profiad angenrheidiol o weithredu neu orfodi'r acquis. Gall

gweinyddiaeth gyhoeddus ganolog gontractio arbenigwyr o’r sector preifat i fod yn YRh. Bydd arbenigwyr y sector preifat yn derbyn yr un lwfans ag uchod, a bydd y cyflog yn cyfateb i gyflog gweithiwr yn y sector cyhoeddus sydd â phrofiad tebyg.

**Ymagwedd y DU i Efeillio**

8. Mae’r DU wedi’i ymrwymo i chwarae rhan lawn a gweithgar mewn gefeillio. Mae’n chwarae rhan mewn cyfanswm o 76 project gefeillio ym mhob un o’r 10 wlad yng nghanolbarth Ewrop, o rowndiau 1998, 1999a 2000, y trydydd nifer uchaf o brojectau ymhlith Aelod Wledydd yn dilyn yr Almaen a Ffrainc. Yn ystod 2000 gwnaeth y DU fid llwyddiannus am 32 o brojectau, gan gynnwys 2 a oedd yn weddill o rownd 1999 ac mae ganddo tua 48 YRh sydd naill ai’n gweithio yn y Gweinyddiaethau ledled Canolbarth Ewrop, neu’n paratoi Cyfamodau Gefeillio. Mae’r projectau yn cynnwys ystod eang o feysydd pwnc, gan gynnwys gorfodi’r gyfraith ac atal troseddau, trethi, cronfeydd strwythurol, polisi rhanbarthol, polisi diwydiannol a pholisi amgylcheddol.
9. Yn aml mae Aelod Wladwriaethau yn cyflwyno projectau mewn consortia. Mae’r DU yn cydweithredu â phob un o’r Aelod Wladwriaethau sy’n cymryd rhan ac yn darparu arbenigwyr tymor byr i ddarparu cyngor unswydd.

**Y Sefyllfa yng Nghymru**

10. Hyd yn hyn mae’r Cynulliad wedi chwarae rhan weddol ddiymhongar yn y gwaith o drefnu ymweliadau astudio ar gyfer gwledydd sy’n cymryd rhan ac yn darparu arbenigwyr tymor byr i roi cyngor yn unswydd.
11. Fis Ebrill eleni, ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ymunodd swyddogion o’r Cynulliad a Swyddfa Ewropeaidd Cymru â thaith i Wlad Pwyl a Hwngari er mwyn archwilio’r cyfleoedd allai fod ar gael i Gymru chwarae rhan ym mhrojectau’r dyfodol yn y gwledydd hynny. Cafodd y ddwy wlad (ynghyd â Thaleithiau’r Baltig a’r Weriniaeth Tsiec) eu nodi yn nogfen strategaeth Canolfan Ewropeaidd Cymru fel "significant areas to develop and work with".
12. Yr oedd yr ymweliad yn gyfle gwych ar gyfer sefydlu cysylltiadau allweddol a bwydo i mewn i asesiad rhagarweiniol o lefel y cyfranogiad y gallai Cymru ei ddisgwyl yn y dyfodol. Un o’r negeseuon allweddol a oedd yn deillio o’r ymweliad oedd parodrwydd Gwlad Pwyl a Hwngari i gydweithio â’r DU, yn arbennig y gweinyddiaethau datganoledig.
13. Dim ond un agwedd sydd angen ei ystyried wrth benderfynu sut y bydd y Cynulliad yn ymateb i’r cyfleoedd a’r heriau o ehangu yw gefeillio. Mae’n broses hynod o gystadleuol sy’n tynnu’n drwm ar adnoddau ac nid gwaith hawdd yw mesur y manteision. Un o’r materion y bydd gofyn i weithgor newydd arfaethedig y pwyllgor hwn ei ystyried yw i ba raddau y gallai neu y dylai’r Cynulliad gymeryd rhan. Bydd cylch gwaith y grp newydd yn rhan o bapur ar wahân y bydd angen i’r Pwyllgor ei ystyried.

**Y Gyfarwyddiaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**EUR**

**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **28 Mehefin 2001** |
| **Amser** | **9.30 am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora** |
| **Teitl** | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**Diben**

1. Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ystod o faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

2. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cefndir**

3. Cyfarfu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd y tro diwethaf ar 23 Mai 2001. Mae llawer o ddatblygiadau wedi bod ers hynny, ac fe'u rhestrir isod.

**Ymweliadau**

<u>Y Comisiwn Ewropeaidd</u>

4. Cyfarfu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt, â David Byrne, Comisiynydd Iechyd ac Amddiffyn Defnyddwyr yr UE ym Mrwsel dydd Llun 25 Mehefin er mwyn trafod datblygiadau polisi y Gymuned Ewropeaidd ac i ystyried pa mor berthnasol ydynt i'r Cynulliad ac i Gymru. Y cyfarfod oedd craidd yr ymweliad, ond cyfarfu Ms Hutt hefyd ag ASE o Gymru, ASE eraill sydd â rôl sy'n ymwneud yn benodol â iechyd/iechyd y cyhoedd a Chyfarwyddwr Rhwydwaith Ewropeaidd Asiantaethau Hybu Iechyd. Ymwelodd Ms Hutt hefyd â UKRep a Chanolfan Ewropeaidd Cymru.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd

5. Mae’r Cynulliad yn parhau i gryfhau y rhan y mae’n ei chwarae yng

6. Mynychodd Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg gyfarfod o Gyngor Diwylliant Ewrop ar 21 Mehefin. Diben y cyfarfod oedd trafod datblygiadau ym maes polisi y Gymuned Ewropeaidd ac ystyried pa mor berthnasol yr oeddent i’r Cynulliad ac i Gymru. Yr oedd hefyd yn gyfle i godi proffil diwylliant Cymru trwy gyfarfod â chwaraewyr allweddol yn y Sefydliadau Ewropeaidd allweddol.

Ymweliadau Llysgenhadol

7. Yr oeddwn yn hynod o falch o gyfarfod â Llysgennad Gwlad Pwyl, Ei Ardderchowgrwydd Stanislaw Komorowski, yn ystod ei ymweliad â Chymru ar 1-2 Mehefin a braf oedd cael y cyfle i siarad yn y gynhadledd "White Eagle, Red Dragon – Poland and Wales: Partners in an enlarged EU" a drefnwyd gan Gynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru a Llysgenhadaeth Gwlad Pwyl. Cynhaliwyd y gynhadledd ar 1 Mehefin yng Ngwesty Jury’s, Caerdydd. Bu’n hynod o lwyddiannus a dangosodd y berthynas gynnes sy’n bodoli rhwng Gwlad Pwyl a Chymru.
8. Ymwelodd Llysgennad y Weriniaeth Tsiec, Ei Ardderchowgrwydd Pavel Seifter, â Chymru ar 20/21 Mehefin. Yn ystod ei ymweliad cyfarfu â mi, ac ar wahân â nifer bychan o gynrychiolwyr o fusnesau Cymru, mewn cinio preifat. Gwnaeth gyflwyniad hefyd mewn seminar ar ehangu a drefnwyd gan Gynrychiolwyr o’r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru i gyd-fynd ag ymweliad gan Graham Avery, Prif Gynrychiolydd Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd dros Ehangu.

Perthynas â UK Rep

9. Mae’r berthynas yn adeiladol ac yn gyfeillgar ac mae’r ymwybyddiaeth o anghenion y Cynulliad ar gynnydd. Cadarnhawyd y berthynas gan gyfres o ymweliadau o bwys i Gaerdydd gan Nigel Sheinwald, Giles Paxman, Antony Vinall ac, yn fwyaf diweddar, Shan Morgan, a fydd yn gyfrifol am lawer o’r meysydd polisi a ddirprwywyd i Gymru. Ymwelodd yr Ysgrifennydd Parhaol â’u gwledydd hwy yn gynharach y mis hwn. Mae’n bwysig bod y lefel hwn o ymrwymiad yn parhau.

Gweithgareddau Pwyllgor y Rhanbarthau

10. Mynychodd John Griffiths gyfarfod llawn ar 1 a 14 Mehefin pan roedd addysg gydol oes a ffermwyr ifanc yn rhan o’r eitemau ar yr agenda. Cynrychiolodd Elin Jones y Cynulliad tra’n siarad mewn derbyniad a drefnwyd gan Swyddfa Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel ar 12 Mehefin i godi proffil aelodaeth Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau. Yn ei haraith tynnodd sylw at ail ben-blwydd datganoli yng Nghymru a sut yr oedd creu’r Cynulliad wedi creu cyfleoedd newydd i’r

Cynulliad droi ei olygon tuag allan a chwarae rhan yn Ewrop.

11. Mae Rheol Sefydlog 15 yn ymwneud â gweithgareddau'r Cynullid. Ymgynghorwyd â Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliadau ac mae'n fodlon gyda'r agweddau cydymffurfio.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn deillio o'r materion yn yr adroddiad hwn.

**Y Gyfarwyddiaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol**

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyrff Pan-Ewropeaidd

Gofynnodd y Pwyllgor am bapur a oedd yn crynhoi y rhan yr oedd y Cynulliad yn ei chwarae â sefydliadau Ewrop-gyfan. Disgrifir y sefydliadau y mae'r Cynulliad yn ymwneud â hwy yn y papur hwn – nid oes arwyddocâd i'r drefn.

Pwyllgor y Rhanbarthau

Mae'r Pwyllgor hwn yn gorff ymgynghorol a ffurfiwyd yn swyddogol o'r Undeb Ewropeaidd a sefydlwyd gan Gytundeb Maastricht. Cyfarfu am y tro cyntaf ym 1994 ac mae ganddo 222 o aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol neu ranbarthol h.y. islaw lefel Aelod Wladwriaeth. Rhaid ymgynghori â'r Pwyllgor ar gydweithredu ar draws ffiniau, polisïau rhanbarthol, cydlyniad economaidd a chymdeithasol, addysg, hyfforddiant galwedigaethol, iechyd cyhoeddus, polisïau diwylliannol a materion eraill sydd ym marn Cyngor y Gweinidogion neu'r Comisiwn yn briodol. Gall hefyd fynegi barn "ar ei fenter ei hun". John Griffiths yw aelod llawn y Comisiwn ar y Pwyllgor ac Elin Jones sy'n ei eiledu. Yn ogystal â chyfarfodydd llawn mae gan y Pwyllgor is-bwyllgorau sy'n seiliedig ar bynciau (a elwir yn "Gomisiynau"). Mae John yn eistedd ar y Comisiwn Polisi Cymdeithasol ac Elin ar y Comisiwn Amaethyddol.

Pwyllgor ar Ranbarthau Morol Ymylol Ewrop

Yn ddiweddar cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Pwyllgor, Xavier Gizard, a rhoddodd fandad i Brif Weinidog Cymru wneud cais i fod yn aelod. Disgwylir penderfyniad ar hynny ar hyn o bryd. Er nad yw'n gorff ymgynghorol swyddogol fel Pwyllgor y Rhanbarthau mae parch mawr i'r Pwyllgor hwn gan y Comisiwn ac mae'n cynnwys aelodau o thua 130 o ranbarthau o bob cwr o Ewrop. Mae wedi cael ei is-rannu yn "gylchrannau" sy'n seiliedig ar gymunedau arfordirol: byddai'r

Cynulliad yn rhan o Gylchran yr Iwerydd. Prif Waith y Pwyllgor yw cynorthwyo ardaloedd morwrol ar gyrion Ewrop i gadw mewn cysylltiad ac i dynnu ar y cryfder a ddaw o gydweithio. Mae’r Pwyllgor yn gwneud ei waith trwy gyfrwng cyfarfodydd llawn a gweithgorau pwnc. Byddai cynrychiolaeth y Cynulliad yn hyblyg a gallai fod yn wleidyddol neu’n swyddogol neu’n gyfuniad o’r ddau yn ôl yr angen (ond dim ond cynrychiolwyr gwleidyddol sydd â’r hawl i bleidleisio yn y cyfarfodydd llawn).

Rhwydwaith y Tele Ranbarthau

Fel yr e-weinidog, daeth Andrew Davies yn Llywydd y Rhwydwaith Tele Ranbarthau fis Ebrill eleni. Rhwydwaith leol yw’r TRN a grewyd i hyrwyddo datblygiad Technoleg Gwybodaeth yn rhanbarthau Ewrop. Ei nod yw hyrwyddo cydweithredu ymhlith rhanbarthau Ewrop er mwyn cryfhau cystadleugarwch a chreu swyddi trwy gyfrwng technolegau’r gymdeithas wybodaeth. Mae’r Aelodaeth yn dod o bob rhan o Ewrop gan gynnwys rhanbarthau yn Awstria, Sbaen, Gwlad Belg, Ffrainc, yr Almaen, Sweden, yr Iseldiroedd, y Ffindir a’r DU. Bydd y Gweinidog yn llywyddu yng nghynhadledd flynyddol y Rhwydwaith yn Valencia fis Hydref.

Y Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes

Grp newydd yw hwn a ysgogwyd gan weinidog dysgu gydol oes llywodraeth ranbarthol Tyscani. Ymatebodd Jane Davidson yn gadarnhaol i wahoddiad i fod yn rhan, ar hyn o bryd, ar lefel swyddogol. Mae’r Rhwydwaith am geisio meithrin cydweithredu rhwng y rhanbarthau er mwyn rhannu profiadau ac arbenigedd. Mae hefyd yn ceisio dylanwadu ar bolisïau’r Comisiwn drwy geisio annog safbwyntiau cyffredin ar lefel ranbarthol. Efallai fod sgôp ar gyfer cynnig rhaglen rhyng-ranbarthol. Mae’r aelodau yn dod o ranbarthau yn yr Eidal, y DU, Estonia, Denmarc, yr Almaen a Sweden.

"Rhanbarthau Ewropeaidd â Phwerau Deddfwriaethol"

Grp yw hwn sy’n cyfarfod o dan nawdd Cyngor Ewrop (nid yw’n un o sefydliadau’r UE). Mae’n cynnwys penaethiaid llywodraethau rhanbarthol sydd â rhywfaint o bwerau deddfwriaethol. Mae aelodau’r grp yn hanu o lywodraethau rhanbarthol yng Ngwlad Belg, Sbaen, y DU, yr Eidal a’r Almaen. O safbwynt deddfwriaethol mae Cymru ar ben gwanaf y sbectrwm er bod modd i’n gweinidogion fynychu cyfarfodydd ym Mrwsel a Barcelona. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Liege fis Tachwedd. Daeth i fodolaeth oherwydd bod teimlad y dylai llywodraethau rhanbarthol allu cael deialog ar faterion cyffredin. Yn y cyfnod i ddod mae’n debyg y bydd y grp yn canolbwyntio ar drafod rôl y rhanbarthau yn y drafodaeth ar Ddyfodol Ewrop.

Cyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol

Sefydliad o Gyngor Ewrop yw hwn, nid yr UE. Sefydlwyd Cyngor Ewrop ym 1949 gyda’r nod o greu gwell unoliaeth rhwng ei aelodau a hynny’n seiliedig ar rannu egwyddorion a delfrydau ac er mwyn hwyluso cynnydd economaidd a chymdeithasol. Mae gan Gyngor Ewrop Gynulliad Seneddol o thua 286 o aelodau sy’n dod o lywodraethau cenedlaethol a Chyngres o Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol. Mae

Tom Middlehurst yn gynrychiolydd eiledol o Gyngor Rhanbarthol CLRAE fel rhan o ddirprwyaeth y DU.

Y Pedwar Rhanbarth Sbardun

Mae’r "Pedwar Rhanbarth Sbardun" yn grp o ranbarthau a grewyd yn ymreolus sy’n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf deinamig yn eu gwledydd a chânt eu hystyried fel ‘sbardun’ economaidd Ewrop – Baden-Wurttemberg, Catalonia, Lombardi a Rhone-Alpes. Mae perthynas Cymru â’r Grp yn deillio yn ôl i ddechrau’r nawdegau. Yn ogystal â datblygu cysylltiadau dwyochrog, i raddau llai neu fwy, gyda’r pedwar rhanbarth mae’r Cynulliad hefyd yn rhan o amryw o Bwyllgorau y Pedwar Rhanbarth Sbardun. Mae’r cysylltiad sydd gan Gymru â’r grp hwn yn llwyfan defnyddiol ar gyfer ein hymdrechion i adfywio ein heconomi. Does dim modd i Gymru gael ei hystyried fel rhanbarth sbardun y DU oherwydd ein GDP isel ond mae’n statws cysylltiol yn destun clod inni am ein hymdrechion llwyddiannus i ddelio â cholli ein diwydiannau trwm traddodiadol.